# Adroddiad: Hanes y Nadolig

Daeth gair i Mair a Joseff
I fynd i Fethlehem
I dalu treth i Gesar
A'u cyfri'n ôl y drefn.
Bu chwilio mawr am lety,
Doedd yno 'run i'w gael,
A gorfu iddynt aros
Mewn stabl lom a gwael.

Bugeiliaid oedd ym Methlem
Yn gwylio'u praidd liw nos,
Pan glywsant am y geni
Yng ngwlad Jwdea dlos.
Prysuro wnaethant yno
I'r stabl lle 'roedd Mair,
Ac yno gwelsant Iesu
Yn cysgu yn y gwair.

*Jennie Gordon,*
*Clychau'r Nadolig*